

DATGANIAD BIL BRYD GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Datganiad i gefnogi trin Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) fel Bil Brys
DYDDIAD	19 Ionawr 2021
GAN	Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mae'r datganiad hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â chyflwyno cynnig dros drin Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) fel Bil Brys, yn unol â Rheol Sefydlog 26.95A.

Ers dechrau pandemig y coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r goblygiadau ar gyfer etholiadau yng Nghymru. Gwnaethom geisio pwerau yn Neddf y Coronafeirws 2020 i sicrhau y gellid gohirio etholiad y Senedd ac is-etholiadau lleol. Cynullwyd Grŵp Cynllunio Etholiadau gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, pleidiau gwleidyddol, Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol, y Comisiwn Etholiadol a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i ystyried effaith pandemig y coronafeirws ar weinyddu etholiad cyffredinol 2021 y Senedd.

Disgwylir i etholiad cyffredinol arferol Senedd Cymru gael ei gynnal ar 6 Mai 2021. Disgwylir i bandemig y coronafeirws gael effaith ar yr etholiad hwn, a bydd graddau hynny yn dibynnu ar gyffredinrwydd y coronafeirws cyn yr etholiad ac ar adeg yr etholiad.

Bwriad pendant y Llywodraeth yw y bydd yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai. Ond mae'n ddoeth sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith os bydd y pandemig yn peri bygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd ac i gynnal yr etholiad.

Oherwydd natur anrhagweladwy'r amgylchiadau yr ydym yn ein cael ein hunain ynddynt, rydym wedi paratoi Bil i wneud darpariaeth ar gyfer gohirio'r etholiad os bydd hynny yn hollol angenrheidiol o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn cynnal yr etholiad yn ddiogel. Mae Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn gwneud darpariaeth i ymateb i'r risgiau posibl i etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth Senedd Cymru sy'n deillio o'r pandemig gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu a chynnal yr etholiad yn ddiogel, ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio. O ran y Senedd, ni fydd y darpariaethau yn y Bil ond yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 6 Mai 2021 ac ni fydd yn gymwys i etholiadau'r Senedd mewn unrhyw flynyddoedd dilynol.

Mae'r Bil hefyd yn ymateb i risgiau posibl y coronafeirws drwy ei gwneud yn bosibl i is-etholiadau llywodraeth leol gael eu gohirio y tu hwnt i 6 Mai 2021 os bydd angen.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n: -

- a. darparu ar gyfer cyfnod diddymu byrrach ar gyfer y Senedd cyn diwrnod y pôl;
- b. diogelu'r cyfnod o amser y mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyntaf y Senedd newydd a etholwyd ar ôl etholiad 2021 ynddo;
- c. darparu pŵer i'r Llywydd, yn dilyn cynnig gan y Prif Weinidog, ohirio'r etholiad o 6 Mai 2021 am reswm sy'n ymwneud â phandemig y coronafeirws tan ddyddiad nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021, a phennu dyddiad ar gyfer cynnal y pôl os bydd y Senedd yn cytuno drwy benderfyniad a wneir gan fwyafrif o ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd – mae'r Bil yn cynnig rôl i'r Comisiwn Etholiadol roi cyngor ar fater gohirio os bydd y Llywydd neu'r Prif Weinidog yn gofyn amdano;
- d. sicrhau bod pŵer presennol y Llywydd i amrywio dyddiad etholiad 2021 yn parhau i fod yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol os caiff dyddiad y pôl ar gyfer yr etholiad ei ohirio;
- e. galluogi is-etholiad i lenwi swydd wag etholaethol sy'n codi ar ôl 6 Mai 2021 i gael ei gynnal ar ddyddiad, nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021, a bennir gan y Llywydd ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru;
- f. galluogi is-etholiad i lenwi swydd wag am aelodaeth o gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned i gael ei ohirio tan ddyddiad nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021;
- g. gwneud addasiadau canlyniadol i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd); a
- h. rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn hwy at ddibenion gweithredu'r Ddeddf yn llawn, neu mewn cysylltiad â hynny.

Rydym hefyd yn parhau i adolygu pleidleisio cynnar yn etholiad y Senedd rhag ofn y bydd cyffredinrwydd y pandemig yn golygu nad yw'n ddiogel cynnal yr etholiad ym mis Mai fel y bwriedir. Mewn amgylchiadau eithriadol o'r fath, rhaid inni ystyried pob opsiwn i alluogi pleidleiswyr i gymryd rhan yn yr etholiad.

Mae'r rheolau ynghylch rheoli etholiadau'r Senedd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gall gwneud newidiadau i'r rheolau hyn olygu bod angen deddfwriaeth sylfaenol a, thrwy gonfensiwn, rhaid i unrhyw newidiadau o'r fath fod ar waith 6 mis cyn etholiad er mwyn caniatáu digon o amser i drefniadau gael eu gwneud. Felly, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol wrth i sefyllfa pandemig y coronafeirws newid yn barhaus.

Hyd yma, mae trywydd y pandemig wedi bod yn anodd ei rag-weld ac mae'n anodd gwybod beth fydd statws y pandemig pan fwriedir cynnal yr etholiad. Nid yw'r diffyg

hyblygrwydd sydd ar gael ar gyfer gwneud newidiadau i reolau etholiadol yn briodol ar gyfer ymateb i'r pandemig, sydd hyd yma wedi golygu gweithredu yn ddi-oed ac yn ymarferol wrth ymateb yn gyflym i sefyllfa sy'n newid yn sydyn.

Credwn felly fod angen defnyddio proses Bil brys i roi deddfwriaeth ar waith cyn gynted â phosibl mewn pryd ar gyfer yr etholiad ym mis Mai. Pe byddem yn dilyn proses Bil arferol, ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei phasio mewn pryd ar gyfer yr etholiad. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn ddelfrydol a byddai'n llawer gwell gennym pe bai pob deddfwriaeth yn dilyn y gweithdrefnau craffu cadarn sydd fel arfer yn berthnasol, ond mae amgylchiadau eithriadol pandemig byd-eang digynsail yn golygu nad yw hyn yn bosibl o dan yr amgylchiadau sy'n ein hwynebu.

Mae'r Bil yn galluogi rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer y pŵl ac yn caniatáu ar gyfer cynllun wrth gefn pe bai senario achos gwaethaf yn digwydd. Mae'r pandemig yn peri dwy risg i uniondeb yr etholiad: y naill i allu pleidleiswyr i gymryd rhan yn y pŵl; a'r llall i allu gweinyddwyr i gynnal y pŵl.

Mae cyfraddau heintio uchel yn peri risg ddifrifol o ddifreinio'r rhai y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu yn unol â chanllawiau'r coronafeirws. Caiff hyn effaith ehangach ar y rhai sy'n wynebu mwy o risg o ddod i gysylltiad â'r feirws a'i effeithiau. Mae'n bosibl na all pleidleisiwr fynd i orsaf bleidleisio ar fyr rybudd ac y bydd yn rhy hwyr iddo gofrestru ar gyfer pleidlais drwy'r post ac na all drefnu pleidlais drwy ddirprwy. Bydd y Bil yn estyn rheolau pleidleisio drwy ddirprwy i gynnwys gofyniad i hunanynysu fel rheswm dilys dros gael pleidlais drwy ddirprwy, heb fod angen cael tystiolaeth feddygol. Bydd estyn pŵer y Llywydd i symud dyddiad y pŵl hefyd yn caniatáu ar gyfer cynllun wrth gefn mewn senario achos gwaethaf. Drwy ohirio'r pŵl, bydd mwy o amser gennym i reoli'r feirws a sicrhau bod mesurau diogelu ar waith, ac felly bydd mwy o bleidleiswyr yn cymryd rhan yn yr etholiad, gan leihau achosion o ddifreinio'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Amcangyfrifir mai cost yr etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd a drefnir ar 6 Mai 2021 bydd £11.8 miliwn. Mae hyn yn cymharu â'r gost o £7.5 miliwn yr aethpwyd iddo yn 2016. Bydd costau ychwanegol pe bai un gohiriad, a allai fod mor uchel â £9.9 miliwn. Mae'n anodd rhagweld y costau hyn a bydd rhagor o fanylion yn cael eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol.

Bydd ein gwaith cynllunio mewn perthynas ag etholiad cyffredinol y Senedd yn parhau i gael ei lywio gan sefyllfa gyffredinol iechyd y cyhoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda gweinyddwyr a rhanddeiliaid etholiadol i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif yn ddiogel, bod canllawiau ar gael i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses a bod pleidleiswyr yn cael gwybod am ffyrdd o bleidleisio os na allant fynd i orsaf bleidleisio yn bersonol, er enghraifft drwy wneud cais am bleidlais drwy'r post.

Rydym yn dal i ystyried mai'r peth cyfrifol yw cynllunio i'r etholiad gael ei gynnal ar 6 Mai ac, ar yr un pryd, alluogi, drwy'r Bil hwn, iddo gael ei ohirio fel y dewis olaf un pe bai senario achos gwaethaf yn digwydd.